## Ynghylch Academi Gweithlu Gofal Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr rydym yn cydnabod mai'r gweithlu yw ein hased mwyaf ym maes gofal cymdeithasol a'u bod yn greiddiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau ac yn troi o gwmpas yr unigolyn.

Mae Academi Gweithlu Gofal Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr (a adwaenir hefyd fel SCWDP) yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar gyfer staff gofal cymdeithasol, gofalwyr maeth a gwirfoddolwyr. Mae ein cyrsiau, sydd ar gael i bob sefydliad gofal cymdeithasol sydd wedi'u lleoli o fewn bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn cael eu cynnig am ddim. Mae'r dysgu a datblygu yr ydym yn ei gynnig yn rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i'w cynorthwyo i ateb gofynion ymarfer statudol ac yn eu cynorthwyo i ymgymryd â chymwysterau lle bo angen ar gyfer cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Dysgu yn y ffordd, ar yr amser ac yn y lle mae arnoch ei angen

Nid yw bob amser yn hawdd rhoi'r amser sydd ei angen i ddysgu ac mae pob unigolyn yn dysgu mewn ffordd wahanol. Er mwyn galluogi unigolion i fod yn gyfrifol am eu taith ddysgu ac i ddarparu ar gyfer ffyrdd amrywiol o ddysgu rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno dysgu gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb, ystafelloedd dosbarth rhithwir, dysgu ar-lein megis e-ddysgu, gweminarau, Padlet, podlediadau a dulliau cyfunol.

I gael manylion penodol am gyrsiau a gwybodaeth ynghylch archebu, edrychwch am daflenni e-bost (anfonir y rhain at reolwyr, fydd yn eu hafnon i aelodau eu tîm) neu ar:

Tudalennau SCWDP gwefan Dysgu a Datblygu Cyngor Bwrdeitref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Dysgu a Datblygu Corfforaethol yn rhoi mynediad I gyfleoedd hyfforddi traws gyfarwyddiaethol yn cynnwys Iechyd a Diogelwch, Datblygu Rheolaeth a Lles.

Comisiynir cyfleoedd dysgu a datblygu mewnol yn unol â blaenoriaethau darparu gwasanaethau. Ar hyn o bryd maent yn canolbwyntio ar ddulliau seiliedig ar gryfderau a diogelu oedolion a phlant.

Mae'r staff I gyd yn cael mynediad at amrywiaeth eang o fodiwlau ac adnoddau e-ddysgu drwy dudalennau rhyngrwyd SCWDP a gwefan Cronfa Ddysgu SCWDP / Gorfforaethol

## Cynlluniau hyfforddi meysydd gwasanaeth

Gwelwch y cynlluniau hyfforddi blynyddol amlinellol ar gyfer:

- Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Cyfleoedd dydd a byw gyda chymorth
- Gofal Cymdeithasol  Plant
- Arweinyddiaeth a Rheoli
- Cyffredinol

a

- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

## Cyrsiau/cynadleddau allanol

Dylid gwneud cais I fynychu ddigwyddiadau hyfforddi/cynadleddau allanol gan ddefnyddio'r ffurflen enwebu isod.

Mae angen llofnod rheolwr y grŵp.

## Sefydlu

Mae'r staff i gyd yn elwa o ddull sefydlu sy'n esbonio'n union yr hyn y mae arnynt angen ei wybod, ei ddeall a'i wneud o fewn 6 mis i ymuno â'r Asdurdod Lleol. Mae'r cynllun yn eiddo i'r unigolyn a'i reolwr ar y cyd ac mae'n cynnwys goruchwyliaeth, cysgodi, hyfforddi ac amrywiaeth o ddysgu cyfunol.

Mae'r Rhaglen Sefydlu Gorfforaethol wedi ei bwriadu i roi dealltwriaeth i gyflogeion newydd o'r gwaith, y bobl a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor. Gall hefyd gael ei defnyddio gan weithwyr presennol sy'n newid cyfarwyddiaeth.

Gellir dod o hyd i fodiwlau e-ddysgu sefydlu a modiwlau gorfodol eraill ar y tudalennau Dysgu a Datblygu Corfforaethol.

Mae e-ddysgu sefydlu yn ffurfio rhan o raglen gynefino'r cyflogeion. Bydd gweithwyr yn derbyn cyfnod sefydlu yn y gweithle hefyd.

Mae pecyn sefydlu Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar gael ar dudalennau SCWDP.

Mae rhaglen sefydlu i Reolwyr newydd a phecyn Cymorth ar gael ar y tudalennau Dysgu a Datblygu Corfforaethol.

## Staff gofal uniongyrchol

*Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (FfSCG)*

Mae'n ofyniad rheoliadol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016) (RISCA) bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael cyfnod sefydlu sy'n addas i'w rôl, ac mae'n arweiniad bod Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan *(FfSCG)* yn cael ei gwblhau (Rheoliad 36).

Gellir defnyddio gweithlyfrau fframwaith sefydlu Cymru Gyfan i gefnogi cwblhau cyfnod sefydlu ar gyfer staff sydd ei angen. Mae canllawiau i reolwyr a gweithwyr ar y *FfSCG* ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru:

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan

Bellach ni all gweithwyr gofal cymdeithasol gofrestru ond os oes ganddynt y cymhwyster gofynnol ar gyfer eu rôl neu os yw eu cyflogwr wedi asesu eu bod yn addas i gofrestru. Mae asesiad cyflogwr yn galluogi cyflogwyr i gymeradwyo cais eu gweithwyr i gofrestru ar ôl eu hasesu yn erbyn rhestr o gymwyseddau.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Er mwyn sicrhau bod y safonau ymarfer uchaf yn cael eu cyrraedd, mae'n hanfodol i unigolion barhau i ddatblygu'n broffesiynol trwy gydol eu gyrfa.

Mae DPP yn cychwyn o'r cyfnod sefydlu ac yn parhau drwy gydol amser cyflogai yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Nid yw DPP yn ymwneud â mynychu digwyddiadau hyfforddi yn unig, astudio ar gyfer gwobrau neu gasglu tystysgrifau. Dylai DPP fod yn agwedd fwy cyffredinol at waith, gan sefydlu nodau i'w cyflawni, bod yn ymwybodol o sgiliau personol, gwybodaeth a meysydd i'w datblygu a sut i'w gwella. Mae DPP yn cynnwys proses o hunanwerthuso, adfyfyrio a chynllunio ar gyfer gwelliant a datblygiad.

Mae portffolio DPP ar gael i'w lawrlwytho ar wefan SCWDP.

Mae'r Portffolio yn cynnwys nifer o dempledi lle gall y staff gofnodi eu hamcanion datblygiad personol a'r gweithgareddau datblygu y maent yn eu cyflawni. Y templedi yw:

- Log gweithgaredd sefydlu
- Cynllun Datblygu Personol
- Log gweithgaredd dysgu

Gall gweithwyr sydd wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gofnodi DPP ar eu cyfrif. Mae angen adnewyddu'r cofrestriad bob 3 blynedd.

I gael gwybodaeth am gofrestru a gofynion DPP, ewch i:

https://socialcare.wales/registration

## Gweithdrefn Gwneud Cais

Rhaid i chi ofyn am awdurdodiad gan eich rheolwr llinell cyn i chi drefnu a rhoi gwybod i SCWDP eich bod yn dymuno mynychu cwrs, boed yn un mewnol neu allanol.

- **Digwyddiadau mewnol**

Eich cyfrifoldeb chi yw trafod yr hyfforddiant yr hoffech ei fynychu gyda'ch rheolwr llinell a sicrhau eich bod yn cael ei awdurdodiad. Bydd angen i chi lenwi ffurflen enwebiad cwrs sydd ar gael ar dudalennau SCWDP gwefan Dysgu a Datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i hanfon drwy'r post neu e-bost at y Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

- **Digwyddiadau allanol**

  Mae angen i reolwyr llinell a thîm SCWDP awdurdodi presenoldeb mewn digwyddiadau dysgu allanol. Anghenion dysgu'r unigolyn ac anghenion y maes gwasanaeth perthnasol fydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn. Tîm SCWDP fydd yn archebu lleoedd mewn digwyddiadau o'r fath ac mae disgwyl i'r hyn a ddysgir gael ei rannu â chydweithwyr. Os byddwch chi'n archebu digwyddiad allanol yn uniongyrchol, gwnewch yn siŵr bod gennych chi'r modd i dalu'r gost oherwydd mae'n bosibl na fydd SCWDP yn talu am ddigwyddiadau na chafodd eu cytuno gan aelod o'r tîm cyn i archeb gael ei gwneud.

  Mae hefyd yn ofynnol i gynrychiolwyr gwblhau holiadur gwerthuso. Cysylltwch â thîm SCWDP am ffurflen enwebu.

- **Hyfforddiant corfforaethol**

  Lle bydd tâl yn gysylltiedig â hyfforddiant a gynigir yn gorfforaethol, hyfforddiant TGCh er enghraifft, yna bydd angen i reolwr llinell a thîm SCWDP awdurdodi hyn.

## Enwebiadau Cyrsiau

Oherwydd y galw mawr am ambell hyfforddiant, mae Tîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn aml yn derbyn mwy o enwebiadau na'r lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau. I fod mor deg â phosibl wrth ymdrin ag enwebiadau, ein polisi yw dyrannu lleoedd ar sail ‘y cyntaf i’r felin’. Byddwn hefyd yn ceisio dyrannu lleoedd i gymaint o dimau/meysydd gwasanaeth/sefydliadau â phosibl. Ni fyddem fel rheol yn cynnig mwy na 2 le ar unrhyw un cwrs i’r un timau/meysydd gwasanaeth/sefydliadau oni bai bod lleoedd i’w llenwi.

Ar ôl derbyn cais(ceisiadau) wedi eu cwblhau, bydd staff tîm SCWDP yn gwirio bod yr holl fanylion wedi cael eu cwblhau'n llawn. Dim ond ffurflenni wedi eu cwblhau'n llawn fydd yn cael eu prosesu. Cysylltir â'r ymgeisydd/rheolwr am ragor o wybodaeth, a gallai'r oedi hwn olygu na chaiff y lle ei ddyrannu.

Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau eu prosesu. Os oes capasiti o fewn y tîm i wneud hynny, bydd ymgeiswyr yn cael eu gosod ar restr wrth gefn, ac os nad yw hyn yn bosibl cânt eu rhoi ymlaen ar gyfer y dyddiad nesaf sydd ar gael.

## Cadarnhad Cwrs

Anfonir e-bost gan dîm SCWDP tua 4 wythnos cyn y digwyddiad hyfforddi i ddweud a oes lle wedi ei ddyrannu i chi. Bydd hwn yn rhoi gwybod i chi am ddyddiad, lleoliad ac amser y cwrs, ac efallai y bydd hefyd yn cynnwys taflenni y bydd angen i chi eu hargraffu a dod â hwy gyda chi ac unrhyw waith y gallai fod angen ei gwblhau cyn y cwrs. Cofiwch wirio manylion cadarnhau eich cwrs yn ofalus a'u cadw'n ddiogel er mwyn cyfeirio atynt.

Ni ddylai unigolion fynychu cwrs ond pan fyddant wedi derbyn e-bost neu neges destun yn cadarnhau – nid yw enwebiad gan aelod o staff yn gwarantu lle iddynt ar gwrs yn awtomatig.

Efallai y bydd trefniadau cadarnhau ar gyfer hyfforddiant corfforaethol a digwyddiadau mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg (Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a RhCT) yn wahanol.

## Y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol oedd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gydymffurfio â safonau ymddygiad o ran y Gymraeg.

Mae’r dyletswyddau sy’n deillio o’r safon yn golygu na ddylai’r Awdurdod Lleol drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac y dylai hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg.

Mae ffurflenni enwebu cwrs yn gofyn am fanylion eich dewis iaith ddysgu. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw ar gofnod er mwyn ein galluogi i sicrhau y darperir ar gyfer eich dewis iaith.

## Gwerthuso ac Adborth

Mae eich barn yn bwysig i ni, ac rydym yn croesawu adborth ar y digwyddiadau y bydwch yn eu mynychu. Ar ddiwedd digwyddiad dysgu, cewch eich gwahodd i lenwi ffurflen werthuso. Os hoffech chi ychwanegu at eich sylwadau, mae croeso i chi anfon e-bost at SCWDP@bridgend.gov.uk a bydd un o'r tîm yn cysylltu â chi.

## Tystysgrifau

Yn dilyn digwyddiad, caiff tystysgrifau presenoldeb eu hanfon yn electronig neu drwy'r post ar gyfer yr unigolion hynny nad oes ganddynt fynediad at TGCh. Ni roddir tystysgrifau ond i gynrychiolwyr sy'n bresennol am gyfnod llawn y digwyddiad hyfforddi.

Caiff tystysgrifau ar gyfer hyfforddiant achrededig megis codi a chario, cymorth cyntaf a chymwysterau QCF eu hanfon yn y post pan fyddant yn dod i law oddi wrth darparwr yr hyfforddiant. Anfonir tystysgrifau i'r cyfeiriad a roddwyd gennych neu i'ch cyfeiriad gwaith. Rhowch wybod i SCWDP, os gwelwch yn dda, os bydd eich lleoliad cartref neu waith yn newid.

## Cadw Cofnodion a Diogelu Data

Cedwir cofnodion yn unol â deddfwriaeth ddiogelu data a chaiff yr holl ddata ei drin yn amodol ar ddatganiad Prosesu Teg/Preifatrwydd y gyfarwyddiaeth. Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon am y ffordd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn trin ei ddata personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor neu'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Swyddog Diogelu Data, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Gwybodaeth, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB. E-bost: foi@bridgend.gov.uk Ffôn: 01656 643565

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru, 2il Lawr Ty Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399 E-bost: wales@ico.org.uk Gwefan: https://ico.org.uk/

## Adnoddau

**SCWDP**

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn tanysgrifio i nifer o adnoddau ar-lein ar gyfer staff gofal cymdeithasol i gefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft CC (Gofal Cymunedol) Hysbysu Oedolion a Phlant. Mae rhestr lawn o danysgrifiadau i

gyfnodolion, er enghraifft, British Journal of Social Work (BJSW) ynghyd â gwybodaeth sut i gael mynediad atynt, ac adnoddau electronig eraill, ar gael ar wefan SCWDP

e-bost: SCWDP@bridgend.gov.uk

Gwefan: http://bridgend.learningpool.com/

Mewnrwyd: https://www.bridgenders.net/wellbeing/

## Adnoddau a chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru

https://socialcare.wales/resources-guidance

Bydd y dudalen we hon yn eich cyfeirio at amrywiaeth o adnoddau, er enghraifft:

- Canolfan Gwybodaeth a Dysgu. Deunyddiau dysgu i'ch helpu i ddeall deddfwriaeth, polisi a chanllawiau Cymreig.
- Gwella gofal a chymorth
- Diogelu
- Iechyd a lles